**Datganiad o Gyfrifon 2024/25 Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De – Hysbysiad archwilio**

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Rhondda Cynon Taf, a Chadeirydd y Cydbwyllgor, yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad cyfrifon. Mae hyn er mwyn ardystio ei fod yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw, a hefyd yn adlewyrchiad teg o incwm a gwariant y corff am y flwyddyn yna. Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod hwn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2025.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliad o ran amserlen estynedig ar gyfer ardystio ac archwilio cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 (sef 30 Mehefin a 31 Tachwedd yn y drefn honno) ac ar gyfer blynyddoedd dilynol, a bydd yn ceisio ymgynghori ar y rheoliadau a gwneud diwygiadau iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyrff gyhoeddi’r datganiad yma (yn unol â rheoliad 10(4)).

Mae'r Awdurdod wedi diwygio ei amserlen yn unol â hynny. Rhagwelir y bydd Datganiad Blynyddol yn cael ei baratoi a'i ardystio erbyn 10 Mehefin 2025.